



department for
**culture, media
and sport**

Dadroleiddio Adloniant

Ymateb i ymgynghoriad DCMS

Ionawr 2013

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd i bawb drwy weithgareddau diwylliannol a gweithgareddau chwaraeon, helpu i sicrhau rhagoriaeth a hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth, y diwydiant creadigol a'r diwydiant hamdden.

Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad	4
Adran 2: Trosolwg o'r ymgynghoriad	5
Adran 3: Casgliad	21

Adran 1: Cyflwyniad

1. Flwyddyn yn ôl, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar y broses o ddadroleiddio'r rhan fwyaf o weithgareddau adloniant y mae angen trwydded arnynt o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 (Deddf 2003).
2. Cyflwynodd yr ymgynghoriad yr achos dros gael gwared ar ofynion trwyddedu perfformiadau drama, dawn, cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio, yn ogystal â chwaraeon dan do ac arddangosiadau ffilmiau. Nododd yr angen i ystyried rheoliadau trwyddedu adloniant eto, gan edrych yn fanwl ar y rheolaethau sydd ar waith o dan ddeddfwriaeth arall. Gofynnodd yr ymgynghoriad y cwestiwn canolog: "Beth pe bawn yn dileu'r broses reoleiddio ar gyfer y gweithgareddau hyn sy'n cynnwys cynulleidfaoedd o lai na 4,999 o bobl?"
3. Bu'r ymgynghoriad yn ystyried hefyd, pe bai dadroleiddio yn digwydd, a fyddai angen gosod terfynau amser ar gyfer dod â pherfformiadau i ben, neu a fyddai cyfrifoldebau cyfreithiol eraill y tu hwnt i delerau Deddf 2003 yn darparu trefniadau diogelu digonol ac yn caniatáu mwy o ryddid, a hynny'n rhyddid mwy cymesur, i bobl sy'n llwyfannu'r mathau hyn o weithgareddau.
4. Gofynnodd yr ymgynghoriad amrywiaeth o gwestiynau cyffredinol am y pedwar amcan trwyddedu yn Neddf 2003: atal trosedd ac anhrefn; diogelwch y cyhoedd; atal niwsans cyhoeddus; a diogelu plant rhag niwed. Gofynnodd gwestiynau pellach hefyd a oedd yn ymwneud yn benodol â phob gweithgarwch trwyddedadwy, ac ystyriodd a oedd angen trefniadau diogelu ym mhob achos ac, os felly, pam.
5. Nod yr ymgynghoriad oedd dechrau gyda chynfas gwag. Ceisiodd annog barn a oedd yn rhydd o gyfyngiadau'r system bresennol ac a oedd yn cadw at yr egwyddor: "Lle nad oes angen rheoleiddio, dylid ei ddileu; ond lle mae gwir angen trefniadau diogelu, dylid eu cadw".
6. Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar iawn i bob ymatebydd am gymryd yr amser i rannu ei safbwyntiau a'i brofiad. Mae adran 2 o'r ddogfen yn darparu dadansoddiad thematig o'r ymatebion a gafwyd, ac mae'n anelu at roi naratif cyffredinol o'r stori a adroddwyd gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r adran hon hefyd yn nodi barn y Llywodraeth ar yr ymatebion a gafwyd, yn ôl thema. Yna mae adran 3 yn amlinellu sefyllfa derfynol y Llywodraeth o ran polisi a'r camau arfaethedig nesaf.

Adran 2: Trosolwg o'r ymgynghoriad

Ymatebion ac ymatebwyr

7. Derbyniwyd tua 1350 o ymatebion i'r ymgynghoriad.
8. Derbyniwyd dros hanner y cyfanswm cyffredinol, tua 800 o ymatebion, gan y rheini a nododd eu bod yn gerddorion neu'n berfformwyr. Derbyniwyd tua 250 o ymatebion, un rhan o chwech o'r cyfanswm, gan lywodraeth leol. Derbyniwyd tua 100 o ymatebion gan y sector diwylliant a'r sector creadigol, a sefydliadau masnach amrywiol. Derbyniwyd y gweddill gan awdurdodau cyfrifol fel yr heddlu, gwasanaethau tân a gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, yn ogystal â chymdeithasau preswylwyr ac aelodau unigol o'r cyhoedd.

Prif faterion

9. Roedd a wnelo'r rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad â materion yn ymwneud â **cherddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio**. Roedd llawer o'r ymatebion yn cynnwys barn gref ar p'un a ddylai cerddoriaeth fyw a/neu gerddoriaeth wedi'i recordio gael ei dadroleiddio:
 - i gynulleidfaoedd o hyd at 4999 o bobl
 - mewn unrhyw leoliad
 - ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos
10. Fodd bynnag, atebodd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad bob un, neu'r rhan fwyaf, o'r 49 o gwestiynau a ofynnwyd, gan roi manylion technegol a rhesymeg helaeth. Roedd ymatebion eraill yn fwy uniongyrchol, gan ganolbwyntio'n bennaf neu'n gyfan gwbl ar y materion a amlinellwyd ym mharagraff 9.
11. Yn sgil hynny, roedd gan yr ymgynghoriad ddau begwn amlwg: y rheini a oedd o blaid dadroleiddio adloniant cerddoriaeth - boed i raddau fwy neu raddau llai - a'r rheini a oedd yn erbyn gwneud hynny; unwaith eto, i raddau fwy neu raddau llai.

Prif safbwyntiau: yn ôl clwstwr o ymatebion

12. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o gerddorion o blaid proses ddadroleiddio llawn, gyda nifer fach yn ffafrio proses ddadroleiddio rannol, a fynegwyd yn gyffredinol naill ai yn nhermau caniatáu cynulleidfa o lai na 4,999 o bobl a/neu bennu cyfyngiadau amser. Ceir safbwyntiau manylach ar gerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.
13. Nid oedd llywodraeth leol yn ffafrio proses ddadroleiddio llawn fel yr un a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, roedd llawer o awdurdodau lleol yn cytuno y gallai rhywfaint o ddadroleiddio fod yn rhesymol. Roedd y Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL), sy'n anelu at ddarparu llais cynrychioliadol i Awdurdodau Lleol, o'r farn y gallai'r rhan fwyaf o weithgareddau gael eu dadroleiddio ar gyfer cynulleidfaedd o hyd at tua 500 o bobl, ond nid y tu hwnt i'r terfyn hwnnw ar sail trefn gyhoeddus / diogelwch cyhoeddus - a dim ond pe bai'r adloniant yn dod i ben am 23:00. Roedd y CLIL yn pryderu ynghylch y posibilrwydd y byddai niwsans sŵn pe bai cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio yn cael ei dadroleiddio'n llwyr, er iddi ysgrifennu'n ddiweddarach i gefnogi'r broses o ddadroleiddio cerddoriaeth fyw yn rhannol fel y cynigiwyd gan y Bil Cerddoriaeth Fyw¹ wrth iddo fynd drwy'r Senedd.
14. Mae'r sector gwirfoddol a'r sector cymunedol, a fu'n ymgyrchu dros gael gwared ar ofynion trwyddedu, wedi croesawu'r broses ddadroleiddio, gan gytuno y byddai gwaredu beichiau o ran costau yn ddefnyddiol iawn i lawer o elusennau bach a sefydliadau yn y trydydd sector.
15. Roedd y sector diwylliant a'r sector creadigol yn croesawu'r broses ddadroleiddio ar y cyfan. Roedd sefydliadau mantell allweddol fel Cyngor Celfyddydau Lloegr, y Rhwydwaith Celfyddydau Gwirfoddol ac Arts Development UK yn cefnogi'r broses ddadroleiddio yn llawn. Cododd rhai sefydliadau sector-benodol nifer o ystyriaethau yr ymdrinnir â hwy yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adran hon wrth fynd i'r afael â gweithgareddau unigol.
16. Roedd barn sectorau masnach yn amrywio yn dibynnu ar y grŵp diddordeb a gynrychiolwyd. Unwaith eto, ceir manylion yn ddiweddarach yn yr adran hon wrth ystyried gweithgareddau unigol.
17. Roedd preswylwyr ar y cyfan yn bryderus iawn ynghylch y broses o ddadroleiddio adloniant cerddoriaeth yng nghyd-destun y materion a amlinellwyd ym mharagraff 9. Nododd rhai preswylwyr eu bod yn derbyn bod achos dros rywfaint o ddadroleiddio mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, nododd Sefydliad Cenedlaethol Cymdeithasau

¹ Mae Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 yn dadroleiddio cerddoriaeth fyw lle na chaiff y sain ei chwyddo rhwng 08:00 a 23:00 mewn unrhyw leoliad heb fod unrhyw gyfyngiadau ar y gynulleidfa. Mae hefyd yn dadroleiddio perfformiadau cerddoriaeth fyw lle caiff y sain ei chwyddo rhwng 08:00 a 23:00 mewn safleoedd sy'n meddu ar drwydded alcohol a gweithleoedd. Yn achos safleoedd trwyddedig, gellir adolygu'r drwydded os ceir unrhyw broblemau.

Preswylwyr, sef y gymdeithas genedlaethol allweddol ar gyfer hawliau preswylwyr, y byddai'n fodlon â phroses ddadroleiddio lawn ar gyfer cynulleidfaoedd o hyd at 499 o bobl, ond gofynnodd am reolaethau ar gyfer digwyddiadau lle caiff y sain ei chwyddo a allai fod yn flinderus.

18. Roedd pryderon Awdurdodau Cyfrifol yn canolbwyntio'n gyffredinol ar weithgareddau cerddoriaeth a'r materion a amlinellwyd ym mharagraff 9. Rhoddodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) sail resymegol fanwl yn egluro bod angen barnu pob math o ddigwyddiadau adloniant yn erbyn amrywiaeth o feini prawf yn ei barn hi, ac argymhellodd na ddylid ymgymryd â phroses ddadroleiddio gyffredinol fel yr un a amlinellir yn yr ymgynghoriad. Amlygodd ACPO gyfres o risgiau posibl sy'n gysylltiedig â rheoli digwyddiadau a nododd fod y gyfundrefn drwyddedu gadarn bresennol yn cyfrannu'n sylweddol tuag at leihau'r cyfryw risgiau yn ei barn hi.
19. O dan y gyfundrefn drwyddedu bresennol, mae'r heddlu yn cael eu hysbysu o'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau adloniant ymlaen llaw naill ai drwy'r broses o drwyddedu safleoedd neu, ar gyfer digwyddiadau untro, drwy hysbysiadau digwyddiadau dros dro (TENS). Pe bai'r cyfryw ddigwyddiadau yn cael eu dadroleiddio, ni fyddai'r heddlu yn cael eu hysbysu amdanynt ymlaen llaw ac ni fyddent yn gallu cynllunio ar eu cyfer mwyach. Roedd ymateb ACPO hefyd yn awgrymu, ar sail y cynigion gwreiddiol a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, ei bod yn debygol y byddai angen ymyrraeth ychwanegol gan yr heddlu a beichiau ychwanegol ar adnoddau'r heddlu, gan gynnwys delio â phryderon ynghylch niwsans sŵn. Nid oedd ACPO o'r farn bod modd rheoli risgiau yn llawn heb gyfundrefn trwyddedu adloniant. Nododd fod yfed alcohol mewn mannau eraill cyn mynychu digwyddiadau yn broblem sylweddol a thynnodd sylw hefyd at y risgiau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau y caniateir i bobl fynd â'u diodydd eu hunain iddynt. Pwysleisiodd ACPO fod angen i drefnwyr digwyddiadau ddilyn arfer da a chynnal asesiadau risg ac effaith cyn digwyddiadau.

Yr achos dros newid: safbwyntiau

20. Eglurodd yr ymgynghoriad farn y Llywodraeth sef bod Deddf 2003 yn cosbi'n annheg lawer o sefydliadau ac elusennau bach a chanolig lleol sy'n rhan o'r Gymdeithas Fawr. Ers 2005, roedd y Llywodraeth wedi derbyn llawer o sylwadau ynghylch y ffaith bod cyfleoedd diwylliannol a chyfleoedd chwaraeon lleol yn cael eu colli yn sgil biwrocratiaeth a chostau diangen a bod rhyngweithiadau a mynegiant cymunedau lleol yn cael eu llesteirio yn sgil hynny. Roedd hyn hefyd yn rhwystro cynnydd artistig a'r economi greadigol.
21. Yn ogystal, roedd yr ymgynghoriad yn disgrifio rhai o effeithiau'r beichiau yr oedd Deddf 2003 yn eu gosod ar fusnesau bach, fel atal llawer o dafarndai a oedd yn wynebu problemau ariannol difrifol rhag arallgyfeirio. Mae'r broses a'r ffoedd trwyddedu ataliol

sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2003 wedi golygu'n aml na all safleoedd fel tafarndai neu fwytai gynnal perfformiadau cerddorol bach na digwyddiadau diwylliannol eraill ar fyr rybudd.

22. Eglurodd yr ymgynghoriad yr achos dros newid gydag Asesiad Effaith drafft eang, a ddatblygwyd i ddangos effaith economaidd bosibl y broses ddadroleiddio ledled Cymru a Lloegr a hwyluso'r broses o graffu ar y rhesymeg polisi yn genedlaethol. Gofynnodd yr ymgynghoriad amrywiaeth o gwestiynau a oedd yn ymwneud â'r Asesiad hwn.
23. Mae Cwestiwn 1, a oedd yn gofyn am safbwyntiau ynghylch p'un a fyddai'r broses ddadroleiddio yn arwain at fwy o berfformiadau diwylliannol a mwy o chwaraeon ledled Cymru a Lloegr, felly'n ganolog i'r cynigion.

A ydych yn cytuno y bydd y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn arwain at fwy o berfformiadau, ac y byddent er budd mudiadau gwirfoddol a chymunedol? Os ydych, a fyddech gystal ag amcangyfrif nifer ychwanegol y digwyddiadau y byddech chi neu'ch sefydliad yn eu cynnal neu y byddai eraill yn eu trefnu yn eich barn chi?

24. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a roddodd ateb uniongyrchol i'r cwestiwn hwn o'r farn y byddai'r broses ddadroleiddio yn arwain at dwf. Cafwyd yr atebion mwyaf cynhwysfawr gan sefydliadau diwylliannol allweddol:

O ganlyniad i broses ddadroleiddio, bydd cwmnïau bach ac artistiaid yn gallu datblygu a chyflwyno eu gwaith yn well, gan fynd i lai o gostau sy'n gysylltiedig â ffioedd trwyddedu. Bydd lleoliadau bach hefyd yn fwy tueddol o gefnogi dramâu nad ydynt o reidrwydd yn gwarantu incwm sylweddol. Felly, bydd proses ddadroleiddio yn cefnogi twf ecoleg y celfyddydau a datblygiad proffesiynol yr artist. (Cyngor Celfyddydau Lloegr)

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r baich cynyddol sy'n gysylltiedig â thrwyddedu adloniant a threfniadau rheoleiddio tebyg wedi bod yn rhwystr mawr i grwpiau celfyddydau gwirfoddol o ran cynnal digwyddiadau a pherfformiadau bach lleol. Mae cymhlethdod a chostau rheoleiddio, y bwriadwyd iddynt fod yn gymwys i ddigwyddiadau llawer mwy yn wreiddiol, wedi cael effaith niweidiol ar ddegau o filoedd o wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser rhydd er budd eu cymunedau. Felly, mae'r Rhwydwaith Celfyddydau Gwirfoddol yn croesawu'r cynigion hyn i leihau'r baich rheoleiddiol ar grwpiau amatur ac unigolion sy'n cyfrannu at weledigaeth y Llywodraeth o Gymdeithas Fawr. (Rhwydwaith Celfyddydau Gwirfoddol)

25. Roedd llawer o'r perfformwyr a'r cerddorion a ymatebodd yn cefnogi'r datganiadau a wnaed gan Equity ac Undeb y Cerddorion. O ran yr achos dros newid, nododd yr ymgyrchoedd hyn y canlynol:

Cytunwn ag asesiad y Llywodraeth sef y bydd y broses o ddadroleiddio adloniant yn cynnig manteision sylweddol i les unigol a chyfunol. Mae amcangyfrif y Llywodraeth o fantais economaidd ychwanegol o £43.2m y flwyddyn yn debygol o fod ar waelod y

raddfa gan nad yw llawer o artistiaid a busnesau bach yn cael eu hannog i ystyried trefnu adloniant byw ar hyn o bryd. (Ecwiti)

Cytunwn y byddai'r cynigion hyn yn arwain at fwy o berfformiadau cerddoriaeth fyw, yn enwedig mewn lleoliadau bach. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae ein haelodau wedi bod yn dweud wrthym bod nifer y 'gigs' sydd ar gael i gerddorion ifanc sy'n dal i berffeithio'u crefft wedi bod yn lleihau. Y prif reswm dros hyn yw bod llai o leoliadau llai o faint a oedd yn cynnig 'gigs' o'r fath yn draddodiadol. (Undeb y Cerddorion)

26. Dywedodd Arts Development UK, sy'n cynrychioli llawer o swyddogion celfyddydau awdurdodau lleol ac ymarferwyr diwylliannol blaenllaw eraill:

..disgwyliwn y bydd effaith lawn, hirdymor y broses ddadroleiddio arfaethedig yn cael ei themlo gan yr unigolion a'r grwpiau hynny nad ydynt yn trefnu 'adloniant wedi'i reoleiddio' yn broffesiynol, ond sy'n gwneud hynny yng nghyd-destun ysgolion, neuaddau pentref a lleoliadau cymunedol eraill, lle mae baich cymharol y gyfundrefn drwyddedu yn uchel iawn ac yn cyfyngu i raddau helaeth ar ystod a graddau'r gweithgarwch. Mae realiti'r gyfundrefn drwyddedu bresennol ar gyfer adloniant wedi'i reoleiddio a'r canfyddiad ohoni yn rhwystri i grwpiau cymunedol, ac mae'n anodd dychmygu cwmpas llawn y creadigrwydd lleol a allai gael ei ddatblygu wrth iddi ddod yn llawer haws cael gafael ar fannau cymunedol i gynnal gweithgarwch celfyddydol.

Yn y byrdymor, disgwyliwn weld o leiaf un gweithgarwch celfyddydol ychwanegol yn cael ei gynnal ym mhob cymdogaeth leol bob blwyddyn wrth i grwpiau amatur lleol fanteisio ar gyfleoedd i gynnal perfformiadau anffurfiol mewn tafarndai a mannau cymunedol. Mae'n anodd nodi'r union nifer, ond yn 2008 nododd ymchwil 'Our Creative Talent' y Rhwydwaith Celfyddydau Gwirfoddol fod dros 49,000 o grwpiau celfyddydau gwirfoddol (ffigur nad yw'n cynnwys y nifer enfawr o grwpiau anffurfiol), a phe bai 20% o'r grwpiau hynny â chyfansoddiad ffurfiol yn cynnal un digwyddiad ychwanegol y flwyddyn, byddai hyn yn rhoi amcangyfrif ceidwadol o 10,000 o weithgareddau bach ychwanegol. Yn ôl ymchwil y Rhwydwaith, roedd 220 o bobl yn mynychu perfformiadau celfyddydau gwirfoddol ar gyfartaledd. Gan ddilyn trywydd ceidwadol a thybio y bydd y digwyddiadau ychwanegol yn llai o ran maint (yn cael eu cynnal o bosibl mewn tafarndai lleol neu mewn digwyddiadau lleol eraill i ategu prif berfformiadau'r grwpiau), gellir hefyd awgrymu cynulleidfaoedd ychwanegol o fwy na 1,000,000.

27. Roedd ymatebion gan yr heddlu a rhai Awdurdodau Trwyddedu ar y pwnc hwn yn llai optimistaidd. Yn yr un modd ag Arts Development UK roeddent yn ei chael hi'n anodd meintoli twf cadarnhaol, ac ni chafwyd ymgais gan y rhan fwyaf ohonynt i ddarparu dadansoddiad manwl o'r achos economaidd yn y maes hwn. Yn aml, roedd yr ymatebwyr hyn yn awgrymu nad oedd costau llawn yr anfanteision a nodwyd yn yr

Asesiad wedi'u nodi, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol:

- Costau plismona adweithiol ar gyfer ôl-ddigwyddiadau sy'n parhau i fynd rhagddynt ar ôl 23:00
- Gwerth negyddol colledion o ran lles i'r rheini sy'n cael eu heffeithio gan ymddygiad gwrthgymdeithasol a achosir gan gynulleidfaoedd mawr mewn digwyddiadau
- Costau amser a chostau arian parod i'r rheini sydd am gwyno i awdurdodau lleol
- Y gost uchel sy'n gysylltiedig â digwyddiadau trefn gyhoeddus sy'n deillio o ddigwyddiadau mawr

28. Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am yr holl ymatebion. Cytunwn fod y broses o feintioli twf yn anodd, ond rydym yn glir bod yr achos dros newid er mwyn rhyddhau sefydliadau cymunedol a busnesau bach yn gryf. Rydym wedi nodi'r sylwadau ar gostau trefn gyhoeddus a gwnawn bob ymdrech i leihau anfanteision posibl yn y sefyllfa polisi derfynol a thrwy ganllawiau ategol.

Maint y gynulleidfa

29. Fel y nodwyd ym mharagraff 9, dichonoldeb y broses ddadroleiddio ar gyfer cynulleidfaoedd o hyd at 4,999 o bobl oedd un o'r materion allweddol - ac un o'r materion mwyaf dadleuol - yn yr ymgynghoriad.

30. Mae a wnelo maint cynulleidfaoedd mewn amrywiol ffyrdd â phob un o'r pedwar amcan yn Neddf Trwyddedu 2003 - diogelwch y cyhoedd, atal niwsans cyhoeddus, diogelu plant rhag niwed ac atal trosedd ac anhrefn.

31. Roedd tri chwestiwn yn darparu'r prif lwyfan ar gyfer sylwadau:

- *A ydych yn cytuno y dylai digwyddiadau ar gyfer llai na 5,000 o bobl gael eu dadroleiddio ar draws yr holl weithgareddau a restrir yn Atodlen Un Deddf Trwyddedu 2003? (Cwestiwn 11)*
- *Os ydych o'r farn y dylai fod yna gyfyngiad gwahanol – naill ai dan 5,000 neu dros 5,000, beth ddylai'r cyfyngiad hwn fod yn eich barn chi? Esboniwch eich rhesymau dros eich dymuniad i weld cyfyngiad gwahanol yn cael ei weithredu, a pha dystiolaeth sy'n cefnogi'ch safbwynt. (Cwestiwn 12)*
- *Yn eich barn chi, a ddylai fod cyfyngiadau gwahanol o ran maint y gynulleidfa ar gyfer gwahanol weithgareddau a restrir yn Atodlen Un? Os felly, a fydddech gystal ag amlinellu pam y dylai hyn fod. Yn ogystal, a fydddech gystal ag awgrymu pa gyfyngiadau ddylai fod yn berthnasol i'r gweithgarwch penodol dan sylw yn eich barn chi. (Cwestiwn 14)*

32. Fel y nodwyd uchod, roedd y cwestiynau hyn yn dangos natur y ddadl begynol ynghylch y broses o ddadroleiddio cerddoriaeth lle caiff y sain ei chwyddo. Roedd llawer o gerddorion a pherfformwyr o blaid proses ddadroleiddio lawn, a dim ond ar sail sylwadau ar y materion ym mharagraff 9 y nododd llawer o breswylwyr eu gwrthwynebiad i ddadroleiddio.
33. Nododd Llywodraeth Leol, ac awdurdodau cyfrifol fel yr heddlu a'r gwasanaethau brys, nad yw'n bosibl pennu risg digwyddiad yn seiliedig ar faint y gynulleidfa yn unig a bod angen ystyried llawer o ffactorau eraill fel natur ehangach y digwyddiad a'r amgylchedd y caiff ei gynnal ynddo. Yn gyffredinol, roedd y partneriaid allanol hyn hefyd o'r farn nad oedd dadroleiddio gweithgareddau i gynulleidfa o hyd at 4,999 o bobl yn ddichonol fel ffordd o sicrhau diogelwch y cyhoedd a threfn gyhoeddus.
34. Yn aml, nododd y cyfryw bartneriaid hefyd fod y tebygolrwydd o fethu â sicrhau diogelwch y cyhoedd mewn digwyddiadau mawr anreoleddig llawer yn uwch nag mewn digwyddiadau bach, gan fod y materion diogelwch dan sylw yn llawer mwy rhyngddibynnol mewn digwyddiadau mwy o faint ac mae ganddynt y potensial i greu problemau mwy difrifol. Mewn digwyddiadau mwy o faint, mae materion diogelwch sy'n ymwneud â rheoli torfeydd, diogelwch wrth fynd i mewn ac allan, diogelwch y llwyfan, diogelwch yr eisteddleoedd a'r sgaffaldiau goleuadau gryn dipyn yn bwysicach. Roedd sawl un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfeirio at y marwolaethau a'r anafiadau yn *Ffair Talaith Indiana a gŵyl Pukkelpop yng Ngwlad Belg* ac mewn digwyddiadau fel y wasgfa a welwyd yn ystod perfformiad JLS yn seremoni cynnau'r goleuadau Nadolig yn Birmingham yn 2009 pan ddisgwyliwyd 20,000 o bobl ond gwnaeth bron 30,000 ddod i'r digwyddiad. Roedd yr ymatebion hyn hefyd yn nodi bod canlyniad methiant i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn rhy fawr i'w adael i ffawd ac nad oedd yn ddichonol dibynnu ar ddeddfwriaeth adweithiol ar gyfer digwyddiadau o'r maint hwn o ystyried y canlyniadau posibl.
35. Yn aml, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn na ddylai'r gynulleidfa fod yn fwy na 500 yn gyffredinol, ar sail diogelwch y cyhoedd, a bod hyn yn derfyn uchaf mwy addas ar y cyfan ar gyfer dadroleiddio, er y dylid ystyried yr effaith y byddai gwaredu'r hysbysiad trwyddedu yn ei chael hefyd. Adleisiwyd y nifer hon gan sawl un arall ar sail niwsans cyhoeddus, gyda Sefydliad Cenedlaethol Cymdeithasau Preswylwyr (NORA) yn nodi:

...gan mai anaml iawn y bydd digwyddiadau a reolir gan Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro (TENS) sy'n cynnwys hyd at 500 o bobl yn achosi tramgwydd, mae aelodau NORA o'r farn na ddylai digwyddiadau sy'n cynnwys mwy na 500 o bobl gael eu dadroleiddio er mwyn diogelu amwynder preswylwyr.

36. Yn gyffredinol, roedd cerddorion a pherfformwyr yn cefnogi'r broses reoleiddio yn amodol ar derfynau'r cynnig, sef 4,999. Roedd barn Equity fel a ganlyn:

Rydym o blaid y cynnig i ddadreoleiddio'r meysydd adloniant rheoledig a awgrymwyd hyd at y trothwy hwn o 5000 gan ein bod o'r farn nad yw adloniant byw yn gysylltiedig ac na ddylai fod yn gysylltiedig â materion trefn gyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o'r ffurfiau celfyddydol a nodir fel 'adloniant rheoledig' yn Atodlen Un fel theatr, dawns ac arddangos ffilmiau yn weithgareddau risg isel.

Yn yr un modd, roedd ymateb Undeb y Cerddorion yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith ei fod o blaid dadreoleiddio mewn lleoliadau bach, ond nododd hefyd ei fod yn cefnogi'r broses o ddadreoleiddio digwyddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd mawr:

Byddem yn cefnogi'r terfyn a awgrymwyd gan y cynigion ond, ar y lleiaf, byddem am weld eithriad i'r Ddeddf Trwyddedu ar gyfer lleoliadau bach â chynulleidfaoedd o lai na 200 o bobl, gan mai dyma'r lleoliadau sydd wedi dioddef yn bennaf o ganlyniad i'r Ddeddf.

37. Gan droi at gwestiwn 14 - a oedd yn ceisio barn ynghylch p'un a ddylai fod cynulleidfaoedd gwahanol ar gyfer gweithgareddau gwahanol - roedd y farn wedi'i rhannu'n gymharol deg. Y farn gyffredinol oedd y byddai gosod un trothwy uchaf ar gyfer cynulleidfaoedd yn arwain at lai o ddryswch ar draws y gyfundrefn, yn enwedig lle y gall rhai digwyddiadau gynnwys nifer o wahanol fathau o weithgarwch. Cydnabuwyd hefyd fod rhai mathau o weithgarwch yn peri llai o risg nag eraill.

38. Roedd llawer o breswylwyr, llywodraeth leol ac awdurdodau cyfrifol o'r farn mai digwyddiadau cerddoriaeth yn gyffredinol - yn enwedig digwyddiadau cerddoriaeth wedi'i recordio - sydd â'r potensial mwyaf i achosi aflonyddwch o safbwynt trefn gyhoeddus. Nododd awdurdodau cyfrifol, er y gall un gweithgaredd cerddoriaeth wedi'i recordio sydd wedi'i gynllunio a'i drefnu'n dda gael ei gynnal yn gymharol resymol gyda chynulleidfa fawr yn bresennol, gall digwyddiad arall a gynhelir heb hysbysiad ar gyfer cynulleidfa fach hyd yn oed brofi'n drychinebus o safbwynt trefn gyhoeddus.

39. **Mae'r Llywodraeth wedi gwranddo'n ofalus ar y safbwyntiau hyn. Er ei bod yn amlwg mai un trothwy uchaf ar gyfer cynulleidfaoedd yw'r opsiwn a ffefrir er budd symrwydd, bydd y polisi terfynol yn ystyried materion yn ymwneud â threfn gyhoeddus a diogelwch y cyhoedd o ran gweithgareddau risg uwch.**

Amser gorffen perfformiadau

40. Mae amseroedd gorffen perfformiadau yn fater allweddol arall yn yr ymgynghoriad. Mae Cwestiynau 16-21 yn mynd i'r afael â'r pwnc yn fanwl.

41. Gofynnodd Cwestiwn 16 p'un a ddylid rheoleiddio digwyddiadau a gynhelir ar ôl amser penodol ac, os oedd ymatebwyr o'r farn y dylid gosod torbwynt, pa amser a fyddai'n

briodol yn eu barn hwy. Roedd y sawl a nododd eu bod yn cefnogi ymgyrchoedd Equity ac Undeb y Cerddorion yn cytuno â'r canlynol:

- **Equity** - nid oes angen amser gorffen
- **Undeb y Cerddorion** – ni roddwyd sylwadau ar Gwestiwn 16, ond nodwyd nad oedd yr Undeb o'r farn y dylai cerddoriaeth fod yn drwyddedadwy
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eraill a ymatebodd yn uniongyrchol i'r cwestiwn o'r farn y *dylai* fod torbwynt ac y dylai fod angen trwydded neu ganiatâd y tu hwnt i'r torbwynt hwnnw.

42. Y farn gyffredin oedd bod 23:00, yn unol â chyfundrefnau eraill ar gyfer diogelu'r amgylchedd, yn dorbwynt addas. Serch hynny, roedd rhai preswylwyr am weld amser gorffen cynharach pe bai cerddoriaeth lle caiff y sain ei chwyddo yn cael ei dadroleiddio (roedd NORA, er enghraifft, am weld torbwynt o 22:00). Roedd llawer o gerddorion a pherfformwyr naill ai o'r farn na ddylid pennu torbwynt canolog, neu roeddent am weld torbwynt hwyrach, fel canol nos - neu hyd yn oed yn hwyrach mewn rhai ymatebion.
43. Nododd llywodraeth leol a llawer o breswylwyr, yn ogystal â'r sŵn o'r gweithgarwch ei hun, fod angen hefyd ystyried y niwsans sŵn cysylltiedig a achosir gan bobl wrth fynd i leoliadau a'u gadael, canu ar ôl digwyddiadau a thwrw cyffredinol. Roeddent yn dadlau bod yr agwedd hon yn cael ei dwysáu pan fo cynulleidfa fawr yn bresennol neu pan fo'r gweithgareddau yn debygol iawn o achosi cyffro neu'n fwy tebygol o achosi meddwdod. Unwaith eto, y farn gyffredin oedd bod hyn yn fwy tebygol o ddigwydd mewn digwyddiadau cerddoriaeth na'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau eraill, er bod rhywfaint o bryder ynghylch sŵn a achosir gan bob gweithgarwch.
44. Nododd yr heddlu a llywodraeth leol hefyd fod awdurdodau cyfrifol yn llai tebygol o allu delio â materion sŵn yn adweithiol gyda'r nos oherwydd bod mwy o bwysau ar adnoddau yn ystod y nos. Nododd y ddau randdeiliad nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gweithredu gwasanaethau y tu allan i oriau, ac mai'r heddlu fyddai'n gyfrifol am gyflawni'r dyletswyddau hynny. Yn ogystal, nododd yr heddlu ac awdurdodau lleol fod digwyddiadau a gynhelir yn hwyr yn y prynhawn neu gyda'r nos yn fwy tebygol o achosi neu ddenu trwbwl yn gyffredinol.
45. Nodwyd y farn hon yn yr ymatebion a gafwyd i gwestiynau eraill, fel Cwestiwn 17, a ofynnodd p'un a ddylai fod torbwyntiau gwahanol ar gyfer gweithgareddau a/neu ddigwyddiadau dan do/awyr agored gwahanol. Y farn gyffredin ymhlith y rheini nad oeddent yn gerddorion nac yn berfformwyr oedd y dylai 23:00 gael ei bennu fel yr amser gorffen ar gyfer y ddau fath o weithgarwch oherwydd y materion a nodwyd uchod.

46. Ychydig iawn o syniadau newydd a gafwyd yn yr ymgynghoriad o ran dulliau gweithredu amgen i gyfundrefn drwyddedu (Cwestiwn 18), er i'r heddlu awgrymu y gallai cyfundrefn newydd gael ei sefydlu, o dan nawdd fframwaith ar gyfer Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch o bosibl, gan ddefnyddio profiad yr heddlu lleol i benderfynu a fyddai angen i weithgarwch gael ei drwyddedu neu a allai fynd rhagddo heb drwydded.
47. Roedd y safbwyntiau ynghylch defnyddio Codau Ymarfer (Cwestiwn 19) yn gymysg. Er i lawer nodi'r ffaith y gallai hyn fod yn ddefnyddiol, roedd mwyafrif y rheini a oedd yn pryderu ynghylch dadreoleiddio cerddoriaeth lle caiff y sain ei chwyddo o'r farn na fyddai codau gwirfoddol yn ateb amgen effeithiol i reolaethau deddfwriaethol ac mai dim ond fel adnodd ychwanegol ar gyfer rheoli gweithgareddau â mwy o risg o achosi niwsans cyhoeddus y gallent gael eu defnyddio.
48. Gwnaeth yr ymatebion i'r cwestiynau hyn a Chwestiwn 20 hefyd amlygu'r ffaith y byddai lleoliadau sydd wedi'u trwyddedu i gynnal adloniant ond nid i werthu/yfed alcohol ar hyn o bryd yn cael eu dadreoleiddio'n llwyr, ac felly ni fyddai Deddf Sŵn 1996 yn gymwys mwyach. Byddai hyn yn golygu mai Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 fyddai'r prif ddull unioni ac roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y sancsiynau gorfodi hynny yn llai effeithiol ar y cyfan.
49. **Mae'r Llywodraeth wedi nodi'r sylwadau ar y mater hwn yn ofalus ac fe'u hystyrir yn y safbwynt polisi terfynol.**

Iechyd a diogelwch

50. Gofynnodd Cwestiwn 20 am safbwyntiau ynghylch p'un a fyddai dyletswyddau cyfreithiol presennol y tu hwnt i Ddeddf 2003 yn ddigonol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau posibl pe bai gweithgarwch Atodlen Un yn cael ei ddadreoleiddio, gan fod llwyth o drefniadau diogelu eisoes ar waith o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a deddfwriaeth gysylltiedig. Roedd Cwestiwn 22 hefyd yn cynnig y cyfle i nodi unrhyw ystyriaethau ychwanegol.
51. Fel y nodwyd ym mharagraffau 28-38, roedd llywodraeth leol ac awdurdodau cyfrifol yn pryderu y gallai diogelwch y cyhoedd gael ei beryglu pe bai digwyddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd o hyd at 4,999 o bobl a/neu ddigwyddiadau a gynhelir gyda'r nos yn cael eu dadreoleiddio'n llwyr. Roedd rhai ymatebwyr yn ffafrio cadw'r haenau ychwanegol o ddiogelwch a ddarparwyd gan system drwyddedu. Roedd ACPO o'r farn bod amodau trwyddedu yn llenwi'r bylchau a adawyd gan ddeddfwriaeth arall. Nid oedd o'r farn bod modd rheoli risgiau yn llawn heb gyfundrefn drwyddedu.
52. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ychwanegol ynghylch digwyddiadau a gynhelir gan weithredwyr diegwyddor, a oedd yn dueddol o ddilyn llwybrau llygad wrth drefnu digwyddiadau mawr ar gyfer elw masnachol, ac a allai ddiflannu pe cyfyd unrhyw broblemau. Nodwyd bod y mater hwn yn broblem benodol o ran digwyddiadau

cerddoriaeth wedi'i recordio (cyfeiriodd yr heddlu a llywodraeth leol sawl gwaith at bryderon difrifol ynghylch partïon gwyllt, gan gynnwys digwyddiadau tebyg a gynhelir yn ystod y dydd).

53. Codwyd pryderon ynghylch digwyddiadau mawr a drefnir gan y rheini heb gapasiti digonol neu'r rheini a gynhelir mewn lleoliadau anaddas - gyda chyfeiriad penodol at faterion yn ymwneud â rheoli torfeydd, risg tân a strwythurau dros dro anniogel, fel y cyfeiriwyd atynt ym mharagraffau 28-38. Roedd pryderon hefyd y byddai'r broses ddadroleiddio yn golygu na fyddai modd darparu amodau ar gyfer staff drws a thocynnau. Hefyd, nid oedd consensws clir, o safbwynt lechyd a Diogelwch, ynghylch statws cyfreithiol digwyddiadau a drefnir gan wirfoddolwyr y tu allan i gydberthynas linol rhwng cyflogwr a chyflogai.
54. Soniodd rhai ymatebion am Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, a ddaeth i rym yn 2006 ac a wahanodd rheolaethau tân oddi wrth reoliadau eraill (gan gynnwys Deddf 2003) fel bod diogelwch tân yn cael ei gwmpasu gan un gyfundrefn. Y farn gyffredinol ymhlith y rheini nad oeddent yn gerddorion nac yn berfformwyr oedd nad oedd rhywfaint o ddadroleiddio yn debygol o achosi llawer o bryder, ond fel y nodwyd ym mharagraffau 28-38, teimlwyd bod risg sylweddol ynghlwm wrth ddadroleiddio digwyddiadau â chynulleidfaoedd mawr a/neu weithgareddau â mwy o risg yn gyfan gwbl.
55. Nododd rhai ymatebwyr hefyd, er ei bod yn haws dianc pe cyfyd problemau mewn digwyddiadau awyr agored, roeddent yn destun peryglon ychwanegol, fel ymchwydd y dorf o ganlyniad i newidiadau sydyn yn y tywydd, effaith gwynt ar strwythurau dros dro anreoleddig a materion yn ymwneud â diogelwch trydanol.
56. **Mae'r Llywodraeth wedi rhoi sylw manwl iawn i'r wybodaeth helaeth a ddarparwyd ac mae'n ddiolchgar i'r ymatebwyr. Caiff y wybodaeth hon ei hystyried yn y safbwynt polisi terfynol er mwyn canfod cydbwysedd synhwyrol rhwng y gwaith o ddiogelu'r cyhoedd a dadroleiddio.**

Materion eraill

57. Amlygwyd tri mater arall hefyd yn yr ymatebion a gafwyd i Gwestiwn 22:

- Soniodd yr heddlu a llywodraeth leol am y defnydd posibl o Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro (TEN) ar gyfer cyflenwi alcohol mewn digwyddiadau mawr yn dilyn y broses ddadroleiddio arfaethedig - "TENs parasitig" - gan greu digwyddiad risg uwch.

- Soniodd yr heddlu a llywodraeth leol am ddigwyddiadau anreoledig lluosog na cheir hysbysiad ymlaen llaw ar eu cyfer ac a gynhelir yn agos at ei gilydd naill ai'n gorlwytho'r seilwaith lleol neu'n achosi ymchwydd o un digwyddiad i'r llall.
- Gofynnodd yr heddlu a llywodraeth leol i ba raddau y gellir defnyddio trwyddedau alcohol i reoli digwyddiadau anhrwyddedadwy, o ystyried y duedd i yfed alcohol mewn mannau eraill cyn mynychu digwyddiadau neu'r duedd i gynnal digwyddiadau y caniateir i bobl fynd â'u diodydd eu hunain iddynt.

58. Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar i ymatebwyr a gododd y pwyntiau hyn. O ran "bariau parasitig", mae methiant bwriadol i ddarparu gwybodaeth gyd-destunol gywir yn drosedd o dan y gyfundrefn bresennol, ond byddwn yn anelu at sicrhau bod ffurflenni TENs hyd yn oed yn gliriach yn hyn o beth. Byddwn yn mynd i'r afael â'r pwyntiau ychwanegol yn y safbwynt polisi terfynol ac unrhyw ganllawiau ategol.

Gweithgareddau wedi'u Rheoleiddio: cwestiynau pellach

Cerddoriaeth fyw

59. Fel y nodwyd, cerddoriaeth oedd ffocws pennaf y rhan fwyaf o'r ymatebion, ac mae'r mwyafrif o'r materion a godwyd yn yr ymatebion wedi'u trafod yn gynharach yn y ddogfen hon. Ers cyhoeddi'r ymgynghoriad, mae Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 wedi'i phasio gan y Senedd a daeth i rym ar 1 Hydref 2012. Mae'r Ddeddf Cerddoriaeth Fyw², rhwng 08:00 a 23:00:

- yn dadreoleiddio cerddoriaeth fyw lle na chaiff y sain ei chwyddo mewn unrhyw leoliad
- yn dadreoleiddio cerddoriaeth fyw lle caiff y sain ei chwyddo mewn lleoliadau lle ceir trwydded alcohol (fel tafarndai a chlybiau) ar gyfer cynulleidfaoedd o hyd at 200 o bobl
- yn dadreoleiddio cerddoriaeth fyw lle caiff y sain ei chwyddo mewn gweithleoedd fel y diffinnir gan Reoliadau Gweithleoedd (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992
- yn diddymu cyfeiriadau at "gyfleusterau adloniant" yn Neddf 2003

Felly, nid yw cwestiynau 24 a 25 yn berthnasol mwyach, gan i'r ymgynghoriad nodi mai sefyllfa llinell sylfaen y Llywodraeth yw dadreoleiddio i'r safbwynt polisi a nodir yn y Bil Cerddoriaeth Fyw, pe na bai'r Bil yn llwyddo i fynd drwy'r Senedd. Prif ffocws yr ymgynghoriad oedd canfod a oedd y broses ddadreoleiddio hon yn mynd yn ddigon pell.

² Ceir Memorandwm Esboniadol llawn ar gyfer y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/2/notes/contents?view=plain>

60. Yn ogystal â'r materion a godwyd mewn ymateb i benawdau cyffredinol yr ymgynghoriad neu fel yr amlinellir fel arall, ni chodwyd unrhyw faterion unigol newydd nas codwyd uchod o ran yr ymatebion a gafwyd i gwestiynau 23 a 25, ac eithrio naratif cyffredinol ynghylch twf mewn amrywiaeth artistig - er enghraifft:

Mae Cyngor y Celfyddydau o'r farn bod manteision penodol ynghlwm wrth dwf a datblygiad cerddoriaeth annibynnol, yn enwedig genres fel jazz, gwerin a ffurfiau eraill ar gerddoriaeth boblogaidd a chlasurol gyfoes. (Cyngor Celfyddydau Lloegr)

Cerddoriaeth wedi'i recordio

61. Mae a wnelo gweithgareddau cerddoriaeth wedi'i recordio â cherddoriaeth wedi'i recordio sydd naill ai'n cael ei chwarae mewn digwyddiadau i ddenu cynulleidfaoedd cyhoeddus neu mewn digwyddiadau preifat lle codir tâl gyda'r bwriad o wneud elw. Ymhlith yr enghreifftiau mae digwyddiadau DJs a discos. Fodd bynnag, nid ydynt fel arfer yn cwmpasu peiriannau cerddoriaeth na radios mewn mannau cyhoeddus, nac unrhyw ffurf ar gerddoriaeth gefndir a chwaraeir mewn mannau fel siopau neu fwytai.

62. Cafwyd cryn dipyn o sylwadau ynghylch dadroleiddio cerddoriaeth wedi'i recordio, yn enwedig yn sgil y materion ym mharagraff 9. Roedd y rhan fwyaf o breswylwyr yn gwrthwynebu'n llwyr y broses o ddadroleiddio cerddoriaeth wedi'i recordio naill ai'n gyfan gwbl, neu y tu allan i amgylchedd rheoledig. Barn yr heddlu ac awdurdodau lleol oedd na ddylid dadroleiddio gweithgareddau cerddoriaeth wedi'i recordio'n gyfan gwbl i gynulleidfaoedd o unrhyw faint, yn seiliedig ar brofiad o'r math hwn o weithgarwch annhrwyddedig a'r tebygolrwydd y byddai gwneud hynny'n arwain at ddigwyddiadau trefn gyhoeddus a phroblemau'n ymwneud â niwsans cyhoeddus.

63. Roedd gan yr heddlu hefyd bryderon difrifol ynghylch partion gwyllt (digwyddiadau cerddoriaeth annhrwyddedig a gysylltir yn aml â goryfed neu gymryd cyffuriau). Roedd yr heddlu'n pryderu ynghylch agweddau cyffredinol ar drefn gyhoeddus a diogelu'r cyhoeddus pe bai'r digwyddiadau hyn yn cael eu dadroleiddio, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o adnoddau plismona a'r anhawster cyffredinol i atal digwyddiad o'r fath pan fo eisoes yn mynd rhagddo. Soniodd awdurdodau lleol a gwasanaethau brys eraill am yr elfen diogelu'r cyhoeddus hefyd, a rhoddwyd enghreifftiau o ddigwyddiadau heb eu rheoleiddio a oedd wedi achosi problemau ac a allai fod wedi bod yn drychinebus. Roedd ACPO o'r farn y byddai mwy o'r digwyddiadau hyn yn debygol o ddigwydd pe bai'r amodau trwyddedu ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth wedi'i recordio yn cael eu dileu, gan nodi hefyd gludadwyedd cynyddol offer sy'n addas at y diben a chostau nad ydynt yn afresymol.

64. Nododd yr heddlu bryderon hefyd ynghylch gweithgareddau cerddoriaeth wedi'i recordio

a gynhelir y tu allan i fframwaith trwyddedu o ran trais a gyflawnir gan gangiau, troseddau'n ymwneud â chyffuriau, cyllyll a gynnu ac aflonyddwch lleol arall. Roedd pryderon eraill, yn enwedig mewn perthynas â digwyddiadau cerddoriaeth wedi'i recordio, ynghylch digwyddiadau y caniateir i bobl fynd â'u diodydd eu hunain iddynt, pobl yn yfed alcohol mewn mannau eraill cyn mynychu digwyddiadau ac effaith "discos sych" i'r rheini o dan 18 oed. Nododd yr heddlu fod y "discos" hyn ymhell o fod yn "sych" yn aml ac y gall hyn arwain at broblemau'n ymwneud ag anhrefn.

65. **Mae'r Llywodraeth wedi ystyried y pwyntiau hyn yn ofalus iawn ac wedi rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i'r sylwadau ar drefn gyhoeddus a diogelu'r cyhoedd. Bydd y safbwynt polisi terfynol yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd.**

Dramâu

66. Fel uchod, rhoddwyd cryn gydnabyddiaeth i'r achos dros ddadreoleiddio dramâu, a chafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r broses o ddadreoleiddio'r gweithgaredd pan gaiff ei lwyfannu o flaen cynulleidfaoedd bach.
67. Roedd Cwestiynau 26-29 yn gofyn cwestiynau ynghylch trefniadau diogelu mewn theatrau. Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol bod y rhan fwyaf o ddramâu a gaiff eu perfformio o flaen cynulleidfaoedd o fwy na 500 o bobl yn ddigwyddiadau masnachol a gynhelir fel arfer mewn theatrau pwrpasol sy'n gweithredu rheolaethau trwyddedu alcohol. Roedd y cwestiynau hyn hefyd yn sail i nifer o bryderon a godwyd gan breswylwyr a rhai awdurdodau trwyddedu ynghylch dramâu awyr agored a fyddai'n cael eu dadreoleiddio pe bai'r sain yn cael ei chwyddo.
68. Roedd nifer fach o ymatebwyr, gan gynnwys nifer fach o'r diwydiant theatr, yn pryderu ynghylch agweddau ar ddiogelu'r cyhoedd gan gynnwys rheoli torfeydd, diogelwch tân (gan gynnwys materion fel mynedfeydd/allanfeydd, arwyddion mewn adeiladau tywyll) a phyrotechneg theatraidd.
69. **Ymateb: Mae'r Llywodraeth wedi ystyried y materion a godwyd yn ofalus. Rydym wedi nodi'r ymateb cadarnhaol i'r broses o ddadreoleiddio theatrau cymunedol ar gyfer cynulleidfaoedd bach a'r pryderon o ran cynulleidfaoedd mawr. Rydym hefyd wedi nodi, yn achos theatrau masnachol, fod llawer ohonynt yn gweithredu bariau trwyddedig ac y byddant yn destun rheolaethau trwyddedu alcohol.**
70. **Credwn fod cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a deddfau tân yn rhoi diogelwch digonol ar gyfer cynnal y digwyddiadau yn y safbwynt polisi terfynol a amlinellir yn adran 3. Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r sectorau creadigol i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n weddill.**

Dawns

71. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol o effaith gadarnhaol y broses ddadreoleiddio ar weithgareddau dawn. Rhoddwyd cyfle i archwilio'r mater ymhellach yng Nghwestiynau 30 a 31.

72. Dangosodd y sylwadau a wnaethpwyd yn y rhan hon o'r ymgynghoriad fod llawer o awdurdodau yn cytuno y gallai gweithgarwch dawns gael ei ddadroleiddio'n synhwyrol (yn aml, nodwyd y gallai perfformiadau gael eu cynnal o flaen cynulleidfaoedd bach yn ystod y dydd, er i rai ymatebwyr fynegi pryderon ynghylch y defnydd o gerddoriaeth lle caiff y sain ei chwyddo).
73. Roedd rhai o'r pwyntiau a wnaed ym mharagraff 67 yn gymwys i arddangosiadau dawns yn ogystal â dramâu, a chododd yr un partneriaid bwyntiau ychwanegol, er enghraifft fod gweithgarwch heb ei reoleiddio yn peri'r risg o faglu a diffyg "sbring" mewn lloriau/amgylcheddau dawns heb eu rheoleiddio.
74. Roedd bron pob ymatebydd yn gytûn â chynnig y Llywodraeth i sicrhau bod unrhyw sioeau stripio neu weithgareddau tebyg a drwyddeddir yn achlysurol drwy Ddeddf 2003 yn parhau i gael eu rheoleiddio.
75. **Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylid dadroleiddio arddangosiadau dawns. Yn yr un modd â gweithgareddau eraill, mae'r llywodraeth wedi clywed sylwadau am faint cynulleidfaoedd ac amser gorffen perfformiadau a chaiff y pryderon hyn eu hadlewyrchu yn y safbwynt terfynol. Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am yr holl safbwyntiau er nad yw'n cytuno bod y dadleuon o blaid cadw'r broses reoleiddio yn gymesur. Bydd y Llywodraeth yn mynd ati i ddiwygio canllawiau Adran 182 a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 er mwyn nodi'n glir pryd y dylai arddangosiadau dawns gael eu dosbarthu fel gweithgareddau cerddoriaeth fyw neu weithgareddau cerddoriaeth wedi'i recordio. Bydd perfformiadau dawns o natur rywiol yn parhau i gael eu rheoleiddio.**

Chwaraeon dan do

76. Roedd yr ymatebion i'r cynnig i ddadroleiddio chwaraeon dan do yn gymharol annadleuol. Er nad oedd pawb o blaid y broses ddadroleiddio, gwelwyd cydnabyddiaeth ymhlith llawer o awdurdodau nad oedd angen i'r gweithgarwch hwn gael ei reoleiddio fel ag yr oedd yn cael ei wneud - nododd rhai ymatebwyr mai unig ddiben y broses yn eu maes hwy oedd rheoleiddio cystadlaethau nofio mewn pyllau nofio a oedd yn eiddo i awdurdodau lleol ac a oedd eisoes yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch.
77. Roedd rhai awdurdodau o'r farn y gallai'r gweithgarwch hwn gael ei ddadroleiddio i gynulleidfaoedd mwy o faint nag ar gyfer gweithgareddau eraill, o ystyried bod y rhan fwyaf o leoliadau yn debygol o fod yn rhai pwrpasol ac yn eiddo'n aml i awdurdodau lleol, neu lle roedd digwyddiadau yn cael eu datblygu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.
78. **Mae'r Llywodraeth wedi ystyried y mater hwn yn ofalus a bydd yn adlewyrchu'r safbwyntiau hyn yn y safbwynt terfynol.**

Ffilm

79. Nododd yr ymgynghoriad mai dim ond pe bai ateb addas yn cael ei ganfod i gynnal mesurau amddiffyn plant priodol er mwyn atal plant rhag gweld cynnwys anaddas y byddai'r broses o ddadroleiddio arddangosiadau ffilm yn digwydd. Roedd bron pob ymatebydd yn gytûn bod angen cynnal trefniadau diogelu o ran dosbarthiadau oedran, ond ychydig iawn o syniadau creadigol newydd a gafwyd o ran sut y gellid gwneud hynny pe bai'r broses drwyddedu yn cael ei dadroleiddio'n llwyr ar gyfer arddangosiadau ffilm.
80. Roedd sefydliadau cymunedol yn cefnogi rhywfaint o ddadroleiddio, a chafwyd cefnogaeth gyffredinol hefyd gan sefydliadau ehangach fel ACRE, sy'n cynrychioli ardaloedd na chânt eu gwasanaethau'n dda gan y farchnad fasnachol bresennol.
81. Nid oedd sefydliadau mantell mwy o faint yn y diwydiant ffilm yn ffafrio proses ddadroleiddio lawn am nifer o resymau, ond roeddent yn cytuno y gallai sinemâu cymunedol gael eu heithrio o'r gyfundrefn o dan rai amgylchiadau.
- 82. Ni fydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â phroses ddadroleiddio gyffredinol ar gyfer arddangos ffilmiau. Byddwn yn archwilio cyfleoedd i ddadroleiddio trwyddedau ar gyfer arddangosiadau ffilm cymunedol risg isel o dan amgylchiadau addas. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar amrywiaeth o opsiynau yn 2013 er mwyn archwilio'n ofalus ac yn fanwl ble y gellir gwneud hyn, tra'n parhau i weithredu'r egwyddor bwysig o amddiffyn plant.**

Paffio a reslo a gweithgareddau tebyg

83. Roedd bron pob ymatebydd yn cytuno â'r cynnig i barhau i reoleiddio paffio a reslo. Er hynny, roedd cefnogaeth yn y sector chwaraeon dros ddadroleiddio'r campau Olympaidd reslo Groeg-Rufeinig a reslo rhydd a oruchwylir gan Gymdeithas Reslo Prydain, y Corff Llywodraethu Cenedlaethol.
84. Cafwyd cefnogaeth frwd gan lywodraeth leol, awdurdodau cyfrifol a phreswylwyr dros sicrhau bod ymladd mewn cawell a chrefftau ymladd cymysg yn cael eu rheoleiddio'n glir yn Atodlen Un pe bai Chwaraeon Dan Do yn cael eu dadroleiddio. Roedd Awdurdodau Trwyddedu yn croesawu'r cyfle i egluro'r sefyllfa hon, a fyddai'n sicrhau bod y sefyllfa gyfreithiol yn gliriach (yn hytrach na dibynnu ar agosrwydd y gweithgareddau hyn at baffio a reslo, sef y safbwynt a fabwysiedir gan rai Awdurdodau Trwyddedu).
- 85. Bydd y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r mesurau hyn. Amlinellir y manylion gweithredu yn adran 3.**

Adloniant rhyw

86. Roedd bron pob ymatebydd yn cefnogi'r cynnig i gadw rheolaethau trwyddedu ar gyfer eiddo sy'n dymuno cynnal perfformiadau adloniant oedolion.
- 87. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod y mesurau hyn yn parhau mewn grym. Amlinellir y manylion yn adran 3.**

Adran 3: Casgliad

88. Mae'r ymgynghoriad wedi helpu i nodi meysydd lle ceir cytundeb cyffredinol ar y ffordd ymlaen a darparu manylion lle roedd angen rhoi sylw i'r cynnig gwreiddiol.
89. Mae'n amlwg bod angen addasu **lefelau cynulleidfaoedd** er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr. Caiff y rhan fwyaf o weithgareddau adloniant trwyddedadwy eu dadroleiddio hyd at drothwy cynulleidfa o **500** o bobl, ac eithrio chwaraeon dan do y pennir trothwy o 1000 o bobl ar eu cyfer. Caiff gweithgareddau cerddoriaeth eu dadroleiddio ar gyfer cynulleidfaoedd o hyd at 500 o bobl mewn amgylchiadau a ragnodir. Bydd nifer fach o eithriadau rheoledig hefyd lle na chaiff trothwy uchaf ei bennu.
90. Mae'r ddadl dros **amser gorffen perfformiadau** wedi bod yn un argyhoeddiadol a bydd amser gorffen o 23:00 yn gymwys i unrhyw weithgareddau a gaiff eu dadroleiddio.
91. **Dramâu a dawns:** Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol o'r rôl werthfawr y mae'r gweithgareddau hyn yn ei chwarae mewn bywyd lleol a'r ffaith bod y rhan fwyaf ohonynt yn rhai risg isel. Credwn, ar y cyd â rheolaethau trwyddedu alcohol, rheoliadau eraill mewn deddfwriaethau cynllunio, tân ac iechyd a diogelwch eraill a'r rheolaethau sy'n weddill o Ddeddf Theatrau 1968 - sy'n atal anlladrwydd, tarfu ar yr heddwch a difenwad - fod y gweithgareddau hyn yn addas ar gyfer eu dadroleiddio. Felly caiff "perfformiadau drama" ac "arddangosiadau dawns" eu dadroleiddio ar gyfer cynulleidfaoedd o hyd at 500 o bobl rhwng 08:00 a 23:00.
92. **Chwaraeon dan do:** Cafwyd cefnogaeth gyffredinol dros ddadroleiddio yn y maes hwn a chydabyddiaeth na ddylai'r gweithgarwch hwn erioed fod wedi cael ei reoleiddio o bosibl gan fod deddfwriaeth arall yn darparu rheolaeth ddigonol. Caiff "chwaraeon dan do" eu dadroleiddio ar gyfer cynulleidfaoedd o hyd at 1000 o bobl rhwng 08:00 a 23:00.
93. **Cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio:** Mae Cerddoriaeth Fyw wedi'i dadroleiddio o dan Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012, a hynny ers 1 Hydref 2012, o dan yr amgylchiadau canlynol:

- cerddoriaeth fyw *lle na chaiff y sain ei chwyddo* mewn unrhyw leoliad rhwng 08:00 a 23:00
- cerddoriaeth fyw *lle caiff y sain ei chwyddo* mewn safleoedd trwyddedig neu weithleoedd ar gyfer cynulleidfaoedd o hyd at 200 o bobl rhwng 08:00 a 23:00

Rydym wedi gwrandao ar alwadau yn yr ymgynghoriad i gadw rheolaethau er mwyn sicrhau nad yw cerddoriaeth lle caiff y sain ei chwyddo yn cael ei dadreoleiddio ym mhob achos. Rydym hefyd wedi nodi'r galwadau amrywiol ar gyfer trothwy cynulleidfa uwch na'r 200 o bobl a ganiateir yn Neddf Cerddoriaeth Fyw 2012, a'r gefnogaeth helaeth i'r defnydd o Adolygiadau gan Ddeddf 2012 o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 fel ffordd o atal problemau swm a threfn gyhoeddus. Byddwn felly'n lansio Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol yn 2013 i godi trothwy cynulleidfa'r Ddeddf Cerddoriaeth Fyw ar gyfer perfformiadau cerddoriaeth a ganiateir o 200 i 500 mewn safleoedd trwyddedig a gweithleoedd fel bod mwy o fusnesau a safleoedd bach yn gallu manteisio o dan yr amgylchiadau rheoledig hyn. Bydd y Gorchymyn hwn hefyd yn dadreoleiddio gweithgarwch "cerddoriaeth wedi'i recordio" mewn safleoedd trwyddedig rhwng 08:00 a 23:00 ac, yn yr un modd â cherddoriaeth fyw yn yr un safle, bydd yn destun Adolygiadau trwyddedu a'r potensial i gyflwyno rheolaethau trwyddedu a sancsiynau unrhyw bryd o dan Ddeddf 2003.

94. **Ffilm:** Fel y nodwyd ym mharagraffau 79-83, bydd arddangosiadau ffilm yn cael eu rheoleiddio o hyd, ond byddwn yn cynnal ymgynghoriad yn 2013 ar gynigion a luniwyd yn ofalus i ddadreoleiddio arddangosiadau ffilm cymunedol er mwyn archwilio'r posibilrwydd o ddadreoleiddio arddangosiadau cymunedol diogel sy'n cynnal mesurau amddiffyn plant pwysig.

95. **Eithriadau:** Bydd yr eithriadau canlynol yn gymwys:

- Bydd **yr holl weithgareddau yn Atodlen Un**, a gynhelir ar eu safle eu hunain gan
 - Awdurdodau Lleol (hyd at lefel Cyngor Plwyf)
 - Ysbytai
 - Meithrinfeydd
 - Ysgolion (ac eithrio Addysg Uwch)

yn cael eu heithrio rhag trwyddedau adloniant rhwng 08:00 a 23:00, heb unrhyw gyfyngiadau o ran y cynulleidfa.

- Bydd gweithgareddau **cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio** a gynhelir ar safle sy'n eiddo i:
 - Awdurdodau Lleol (gan gynnwys cynghorau plwyf) gyda chaniatâd penodol yr awdurdod hwnnw;
 - Ysbytai
 - Meithrinfeydd
 - Ysgolion (ac eithrio Addysg Uwch)

gyda chaniatâd penodol y sefydliadau hynny, yn cael eu heithrio rhag gofynion trwyddedu ar gyfer cynulleidfaoedd o hyd at 500 o bobl

- Bydd **safleoedd cymunedol** fel
 - neuaddau eglwys
 - neuaddau pentref
 - canolfannau cymunedol).

yn cael eu heithrio rhag gofynion trwyddedu **ar gyfer gweithgareddau cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio** ar gyfer cynulleidfaoedd o hyd at 500 o bobl

- Bydd **syrcasau** yn cael eu heithrio rhag rheoliadau ar gyfer cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio, dramâu, perfformiadau dawnys a chwaraeon dan do rhwng 08:00 a 23:00 heb unrhyw gyfyngiadau o ran y gynulleidfa.

96. **Meysydd rheoleiddio sy'n weddill:** Bydd pob gweithgarwch sy'n rhagori ar y terfynau ar gyfer cynulleidfaoedd ac amseroedd a nodir uchod yn parhau i gael eu rheoleiddio. Bydd paffio a reslo yn parhau i gael eu rheoleiddio, ac eithrio'r campau Olympaidd reslo Groeg-Rufeinig a reslo rhydd. Fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad, bydd ymladd mewn cawell / crefftiau ymladd cymysg yn cael eu rheoleiddio. Byddwn yn sicrhau nad oes unrhyw fylchau ar gyfer dadroleiddio adloniant oedolion.